Gwybodaeth i Gleifion

Dacrocystorhinostomi

Uned Llygaid

Byddwch yn cael llawdriniaeth i greu sianel draenio newydd i ddagrau i geisio atal eich llygad rhag ddyfrio.

Enw'r llawdriniaeth yw 'dacrocystorhinostomi', neu DCR.

A fydd fy llygaid yn dal i ddyfrio ar ôl y llawdriniaeth?
Bydd y llygad yn dyfrio ar ôl y llawdriniaeth. Mae hyn yn gyffredin a bydd pethau'n setlo pan fydd y sianel dagrau newydd yn gweithio'n llawn.

Weithiau caiff tiwb ei osod i gadw'r sianel newydd ar agor. Er bod hwn yn ei le bydd y llygad yn dal i ddyfrio. Caiff y tiwb ei waredu yn yr adran cleifion allanol tua 3 mis wedi'r llawdriniaeth.

Pan caiff fy mhwythau eu tynnu allan?
Caiff y pwythau eu gwaredu 5-7 diwrnod ar ôl y llawdriniaeth. Cewch apwyntiad i ddychwelyd i'r adran all-gleifion i'w gwaredu.

Beth gallaf ei wneud pan fyddaf yn mynd adref?
Gallwch fyw bywyd arferol ond dylech beidio â gwneud gormod yn ystod y diwrnodau cyntaf, a cheisiwch osgoi plygu. Ni ddylech wneud chwaraeon. Bydwch yn gallu dychwelyd i'r gwaith ar ôl wythnos.

Beth dylwn i fod yn ofalus amdano?
Ceisiwch beidio â thisian. Os teimlwch eich bod am disian, pinsiwch eich ffroenau ynghyd - bydd hyn yn atal tisian. Peidiwch â chwythu'r trwyn nag amharu ar eich ffroenau gan y gallai hyn symud y tiwb.

Beth ddylwn i fod yn wyliadwrus amdano?
Os oes cochi, chwyddo neu ollyngiad o amgylched y pwythau, neu os ydy'ch llygad yn troi'n ludiog, holwch eich meddyg neu ffoniwch **01633 238415** i gael cyngor.

Peidiwch â phoeni os oes mymryn o waed am rai diwrnodau - mae'n ddigon cyffredin.

Os oes **gwaedu trwm**, rhowch iâ mewn cadach wrth bont y trwyn. Ffoniwch feddyg neu ffoniwch **01633 238415** ar unwaith i gael cyngor.

Canslo apwyntiadd
Os na allwch gadw apwyntiad, rhowch wybod i ni mewn da bryd fel y gallwn ei gynnig i rywun arall.
Ffoniwch **01633 238447.**

Rhifau Cyswllt

Apwyntiadau **01633 238447**

Os ydych yn pryderu am rywbeth ffoniwch:

01633 238415 i gael cyngor.

NODIADAU PERSONOL

_____

_____

_____

_____

_____

_____

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".